

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

1/5/2018

**Presennol:** Alwyn E Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Dewi Jones, Rhodri Jones

**1869 Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**1870** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a llongyfarchodd Rhodri Jones ar enedigaeth mab.

**1871 Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.

**1872 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 4ydd, 2018.

**1873 Materion y Clerc :** Dywedwyd ein bod bellach mewn trefn i enwebu Cyngorydd a chytunwyd i ofyn i Lindsey Ellis-Edwards.

**1874 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir, Alan Jones Evans a soniodd am gyfarfod a gynhaliwyd i geisio gwella parcio a diogelwch i ddefnyddwyr bws wrth loches bws Tŷ'n Ddôl. Roedd swyddogion o Barc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn trin llysiâu'r dial yno ers peth amser. Mae'n allweddol fod y rhaglen difa'n llwyddiannus cyn y gellir symud ymlaen. Bydd Meirion Williams o Gyngor Gwynedd hefyd yn ymweld i asesu a oes posib cael grant at y gwaith diogelwch gan nad oes pafin yno. Bydd y Swyddog Adfywio'n trafod a oes posib cael grant tuag at waith angenrheidiol ar yr hen ffynnon a Ffos Ffatri.

Mae'r pryder lleol am y cynnydd diweddar ym maw cŵn yn derbyn sylw swyddogion Cyngor Gwynedd .

**1875 Adroddiadau o'r Is Bwyllgorau:**

- i. Cyllid – daeth y raddfa cyflogau newydd i rym yn Ebrill 2018 a chytunwyd i gydymffurfio.
- ii. Eiddo – adroddwyd fod gennym yr hawl i newid cynllun y toiledau presennol i fod yn un toiled i bawb; cytunwyd i chwilio am grantiau.
- iii. Mynwent – mae'r gwaith clirio wedi ei wneud ac mae hysbysfwrdd ychwanegol yn cael ei archebu. Cytunwyd i ofyn i'r ymgymerydd lleol i baratoi cynllun ar gyfer safle claddu llwch. Bydd Alan Jones Evans yn sicrhau fod bin gwyrdd yn cael ei osod yn y fynwent. Cytunwyd i drefnu fod gwaith torri gwair ym mynwent yr Eglwys yn cael ei wneud, yng nghyd â thorri nôl ar y goeden sy'n tyfu dros y ffordd.
- iv. Paneli dehongli – cytunwyd ar y darparwr a bydd cyfarfod gydag ef yr wythnos nesaf.
- v. Iaith – bydd panel yn cyfarfod cyn hir.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

**1876 Materion ariannol:** derbyniwyd adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol. Derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept.

**1877 Materion lleol:** Cytunwyd i holi Cylch y Llan yn y lle cyntaf am gyflwr Eglwys Deiniol Sant sydd yn adeilad cofrestredig 2\*. Cytunodd Alan Jones Evans i holi am rwystro parcio o flaen drws person anabl.

**1878 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones. Mae pwyllgora a chyfnewid syniadau am rôl y Bartneriaeth yn digwydd; derbyniwyd caniatâd i wneud newidiadau mewnol i adeilad cofrestredig yr Henblas.

### 1879 Gohebiaeth

- i. Llywodraeth: Cytunwyd i gais Panel Adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned i agor drysau ar 24/5/18 trwy fod cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned ar gael am gyfnod yn y bore yn yr Eagles i dderbyn sylwadau'r cyhoedd ar rôl cyngorau cymuned yn y dyfodol.
- ii. Cyngor Gwynedd : derbyniwyd llythyr am sefydlu Campws Dysgu ar safle Ysgol y Berwyn; mae'r camau ffurfiol wedi eu derbyn gan gabinet Cyngor Gwynedd.
- iii. Cyngor Gwynedd: derbyniwyd Memorandwm Ffioedd Claddu Plant.
- iv. Gwynedd: cytunodd Huw Antur i fynychu sesiwn gwybodaeth ar 15/5/18 ar gynllun Cyfrifiadur yn y Gymuned.
- v. Parc Cenedlaethol Eryri: mae'r coed afalau wedi eu plannu yn yr ysgol ac ar y groesffordd i Gwm Cynllwyd.
- vi. Parc Cenedlaethol Eryri: derbyniwyd gwybodaeth am daliad ar y gwaith sydd wedi ei wneud ar Lwybr y Cei.
- vii. GDPR: mae gwybodaeth fwy diweddar wedi dod i law a disgwylir arweiniad ar ffioedd cyn hir.
- viii. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniad oddi wrth Eisteddfod y Llungwyn a Tenovus.
- ix. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Wobr Pentrefi Cymru.
- x. Nodwyd derbyn neges gan Gymdeithas yr Iaith parthed diogelu clybiau ieuenctid.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 5/6/18 yn y Neuadd Bentref*

*Amser gorffen: 9.10 p.m.*